Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 8fed Chwefror 2006 yn Neuadd y sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Ros Bellamy, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Roy Davies, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater, Mr Des Davies, Swyddog Technegol. Mr Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau : Cyng Paul Faulkner.

6696 / Chwefror /06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

E/11981 NEWID DEFNYDD ADEILAD A CHWRT BLAEN O DDEFNYDD DOSBARTH B8 (STORIO A CHYFLENWI) I YSTAFELLOEDD ARWERTHU (ADOLYGOL) (AILGYFLWYNO CAIS CYF E/10121 GWRTHODWYD AR 6.7.05) HEOL YR ORSAF
SYLW – Dim gwrthwynebiad i'w ddefnydd fel ystafell arwerthu. Mae yna broblem gyda'r parcio, yn arbennig o ystyried y gwaith ffordd sy'n cael ei wneud ar Heol yr Orsaf. Fe allai CSC gyflwyno mesurau dim parcio ar hyd un ochr a chyfyngiadau parcio ar yr ochr arall.
Bydd yn rhaid i'r Ystafell Arwerthu arddangos yn glir fod parcio ar gael ym maes parcio'r Orsaf Reilffordd.
O bosib, bydd 50 o arwerthiannau y flwyddyn yn ormod i'r trigolion lleol oddef anghyfleustra.
Dylai'r lle ddim ond fod ar agor yn hwyr ar ddiwrnod yr arwerthiant neu ar y diwrnod blaenorol pan gellir mynd â gweld, oni bai am hynny fe ddylai'r oriau agor fod yn 8-6pm.

E/ 12074 ARWYDD SIOP YN 74, STRYD RHOSMAEN (WEDI'U DIWYGIO O'R RHEINI A GYMERADWYWYD AR 15.11.05)
Dim gwrthwynebiadau ar yr amod fod yr arwyddion yn ddwyieithog.

E/ 12075 ARWYDD SIOP AR GYFER ADEILAD RHESTREDIG YN 74, STRYD RHOSMAEN CYNLLUNIAU DIWYGIEDIG CYMERADWYWYD AR 15.11.05
Cytuno dim sylw.

E/ 12126 ARWYDD SIOP X 2 (PINIWN ADEILAD YN 139, STRYD RHOSMAEN
Cytuno dim sylw

E/12164 AIL-OSOD ADDURNIADAU MEWNOL YM MANC NATWEST 54, STRYD RHOSMAEN.
Cytuno dim sylw

E/11916 DIWYGIO CAIS A GYMERADWYWYD AR 1.12.05 – UNED DDIWYGIEDIG 2,3 ANHEDDLE, TREFNIADAU NEWYDD O RAN MYNEDFA AC ALLANFA
Cytuno dim sylw.

E/11918 ADDASU CARTWS PRESENNOL YN LLETY I STAFF, CEGIN A MAN BWYTA AC ADEILADU DERBYNFA NEWYDD A THOILEDAU YN SALUTATION INN, HEOL NEWYDD.
Pryder o gymharu â'r cais blaenorol, y gallai bod oblygiadau o ran newid defnydd o le i gael brecwast i FWYTY. Mae hyn yn bryder i eiddo sydd gerllaw.

E/12227 AILOSOD TOEON DROS NEUADD Y GWEISION AR GYFER DIBENION ARDDANGOSFA I'R CYHOEDD YN NHY'R DRENEWYDD, PARC DINEFWR.
Cytuno, dim gwrthwynebiadau

6697 / Chwefror / 06 Dileu Ceisiadau Cynllunio

E/11616 DATBLYGIAD ARFAETHEDIG O ODDEUTU 45 ANHEDDLE AMGAEADAU 8100 A 8791GLYNCEIRCH/PENCRUG

6698 / Chwefror / 06 Rhybudd o Apêl Cynllunio.

APP 564 / E11169 STORFA YN Y LLEW GWYN, STRYD SIOR ADDASIAD ARFAETHEDIG I ANHEDDLE (ADOLYGOL)
CYFEIRIAD AT GOFNOD 6610/HYDREF / 05
Cytuno (cyhyd â bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r angen am barcio)

6699/ Chwefror / 06 Trafnidiaeth

Ateb oddi wrth Mr Mike James, Asiantaeth Cefnffyrdd yn nodi y bydd y marciau newydd ar gyfer arhosfan bysiau yn cael ei wneud wedi i Stryd Rhosmaen gael wyneb ffordd newydd.

6700 / Chwefror / 06 Gorchymyn Cadw Coed

Gorchymyn Rhif 4/ 6 Heol Newydd – Grŵp o goed

6701 / Chwefror / 06 Adroddiad AR Lwybrau Troed

Codwyd y materion canlynol gan y Swyddog Technegol

i) Barn y Cyngor ar y defnydd o blaladdwyr/chwynladdwyr
Argymhellwyd y dylid trafod y defnydd o gemegolion yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

2) Nifer o weithiau y bydd llwybrau troed yn cael eu torri bob blwyddyn
Argymhellwyd torri ddwywaith y flwyddyn ac y dylai'r ail doriad gael ei adael am ddigon o amser er mwyn caniatáu i blanhigion gwyllt hadu.

Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy gan fod yna ffordd dramwy gyhoeddus trwy fynwent yr Eglwys ei bod yn cael ei chynnwys yn y rhaglen cynnal a chadw llwybrau troed. Eiliwyd hyn gan Cyng Richard Wallace. Pawb o blaid.
Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin
Yn gofyn iddynt

a) Dorri'r borfa sydd ar hyd ymyl y ffordd sy'n arwain i'r dref ger Gwesty'r Hydd Gwyn yn rheolaidd
b) Gweithredu yn erbyn y perchnogion cŵn hynny sy'n cael eu caniatáu i faeddu'r ffyrdd canlynol yn rheolaidd :- Parc Penlan, Heol Cilgant, Heol Latimer, Heol Alan, Maes Mwyn,

Maes Tomos, Parc Le Conquet a llwybr troed Ysgubor Abad. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Pawb o blaid.

6702 / Chwefror / 06 Gohebiaeth

1. Y ffurflenni cais am grant ar gyfer cynnal a chadw Llwybrau Troed ar gyfer 2006-7. Nodwyd.
2. Adroddiad blynyddol ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin. Nodwyd.

6703/ Chwefror / 06 Materion nad oes angen penderfyniad.

Adroddodd y Cyng Hugh Towns o ganlyniad i flociad, bod carthffosiaeth wedi llifo dros ran o'r llawr yn Ysgol Gynradd Llandeilo. Mae CSC yn mynnu bod yn rhaid i'r ysgol dalu am waith sydd wedi ei wneud ganddynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm.